# Llwybr Rhan Amser: Ymrwymiadau ysgolion bartner

- Cefnogi 2 i 4 myfyriwr rhan amser ar draws 60 diwrnod lleoliad bob blwyddyn. (Mae astudio rhan amser yn cyfateb i TAR llawn amser ar sail pro rata dros 2 flynedd).
- Blwyddyn 1 – darparu amserlen sy'n briodol i lefel astudio o 2-3 diwrnod yr wythnos (addysgu dan oruchwyliaeth, gweithgareddau yn yr ysgol, arsylwi a CPA). Mae dwyster yr addysgu yn cynyddu o 30-50% ac mae angen iddo gynnwys profiad mewn dau gyfnod oedran olynol yn y pwnc/cyfnod perthnasol.
- Blwyddyn 2- darparu amserlen ar gyfer 60 diwrnod ymarfer dysgu ac mae'n rhaid i 30 diwrnod o leiaf gael eu cyflawni mewn bloc, gyda'r gweddill yn cael ei chwblhau dros 2-3 diwrnod yr wythnos. Mae dwyster yn cynyddu hyd at 70-75%.
- Adnabod Mentor dosbarth. Sesiynau mentora wedi'u hamserlenni bob pythefnos, arsylwi rheolaidd ac asesu ffurfiol. Darparu amser ar gyfer hyfforddiant.
- Nodi uwch aelod o staff fel Cydlynydd Ysgol i arwain darpariaeth y Brifysgol Agored. Darparu amser ar gyfer hyfforddiant a gweithgareddau sicrhau ansawdd.
- Ym mlwyddyn 1, cefnogi myfyrwyr a mentoriaid i gydweithio wrth astudio gwersi.
- Ym mlwyddyn 2, cefnogi myfyrwyr i ymgymryd ag ymchwil lefel Meistr.
- Cefnogi'r defnydd o IRIS Connect ar gyfer arsylwi addysgu o bell ar-lein trwy ffilmio gwersi a gwaith gyda thiwtor allanol.

Mae Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored yn gwneud cyfrannid ariannol tuag at gefnogi mentora.